# Canllawiau - Ffurflen gais Enwi a Rhifo Strydoedd Lleiniau Lluosog

*Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 1925, adrannau 17 i 19*

**Oherwydd y broses gyfreithiol statudol dan sylw, gall y weithdrefn Enwi a Rhifo Strydoedd fod yn hir, felly rydym yn cynghori datblygwyr i gyflwyno cais mor gynnar â phosibl yn y broses er mwyn osgoi oedi.**

Rydym hefyd yn eich cynghori i ddarllen y canllawiau hyn yn ofalus cyn eu cyflwyno eich cais, gan y bydd ceisiadau nad ydynt yn cadw at y polisi yn cael eu gwrthod.

## *Manylion yr ymgeisydd*

- Cwblhewch yr holl adrannau yn llawn.
- A fyddech gystal â nodi mai’r e-bost yw’r dull cyfathrebu a ffefrir gennym
- Nodwch mai'r manylion cyswllt a roddwch (e.e. ffôn / e-bost) yw rhai’r person y dylem gysylltu ag ef / hi os oes gennym unrhyw ymholiadau sy’n gysylltiedig â’ch cais.
- ***Rhif cyfeirnod cais cynllunio:*** Dylech gynnwys hyn gan y gall eich cais cynllunio roi gwybodaeth werthfawr i ni.

***Mae gan Gyngor Sir Fynwy'r hawl i wrthod ceisiadau os rhoddwyd gwybodaeth annigonol neu enwau anaddas.***

## *Manylion safle a lleoliad*

### *Safle:*

***Nifer y lleiniau:*** Dyma nifer y cyfeiriadau newydd sydd eu hangen. Er enghraifft, os ydych chi'n rhannu tŷ mawr i mewn i nifer o fflatiau, nifer y lleiniau fydd nifer y fflatiau rydych chi'n eu creu.

***Enw'r datblygiad:*** dywedwch wrthym yr enw marchnata neu'r enw answyddogol a ddefnyddiwch i gyfeirio at y datblygiad. (Nodwch, mae'n ***annhebygol iawn*** y byddwn yn gallu defnyddio'r enw hwn fel enw eiddo neu enw stryd. Gweler yr adran isod, *Adeiladau arfaethedig a/neu enwau ffyrdd.*)

***A yw'r datblygiad yn cynnwys heolydd newydd?*** Os ydyw, edrychwch ar ein canllawiau ar wahân ar ddewis enwau heolydd newydd. Os hoffech i'r awdurdod Enwi a Rhifo Strydoedd ddewis enwau ar gyfer yr heol/heolydd newydd, nodwch hyn.

### *Lleoliad*:

**Mae gwybodaeth am leoliad a mynediad i'ch datblygiad yn hanfodol, ac os nad oes gennym wybodaeth ddigonol, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn darparu'r cynlluniau canlynol:**


- Cynllun lleoliad, i raddfa o ddim llai na 1:1250, sy'n nodi safle'r eiddo mewn perthynas â'u hamgylchedd daearyddol;
- Cynllun dyluniad sy'n nodi'n glir leoliad yr adeiladau / addasiadau newydd o fewn y datblygiad, gan ddangos unrhyw ffyrdd newydd, rhifau’r lleiniau a chyfeiriadedd o fewn y safle.

Os ydych yn adeiladu neu'n addasu eiddo o fewn ffin eiddo presennol, yna rhowch gyfeiriad yr eiddo hwnnw. Os yw'r datblygiad newydd yn rhannu mynediad gyda'r eiddo presennol, rhowch wybod i ni.

Os nad yw hyn yn berthnasol, yna darparwch y canlynol:

- ***Enw'r heol:*** mae angen i ni wybod o ba heol y mae’r mynediad i'ch datblygiad. Os daw mynediad o helo ddienw, sicrhewch fod y fynedfa a'r ffordd wedi'u marcio'n glir ar eich cynllun cysylltiedig.
- ***Ardal leol neu bentref*** e.e. Magwyr (os yw'n berthnasol): Os yw eich datblygiad, er enghraifft, yng nghanol Trefynwy neu Cas-gwent (neu dref arall), ni fydd hyn yn berthnasol.
- ***Cod post:*** os ydych chi'n ei wybod, rhowch y cod post i'r eiddo cyfagos agosaf. Os nad ydych yn gwybod beth ydyw, sicrhewch eich bod yn darparu cyfeirnod grid.

- ***Cyfeirnod grid:*** gallwch ddod o hyd i hyn ar-lein yma [https://osmaps.ordnancesurvey.co.uk](https://osmaps.ordnancesurvey.co.uk) neu [https://gridreferencefinder.com/](https://gridreferencefinder.com/)
  Chwyddwch i mewn i leoliad eich adeilad newydd ac yna cliciwch ar y dde am fanylion.




## Statws yr eiddo

### *Preswyl neu fasnachol?*

Os yw'ch eiddo yn un masnachol, ni fydd y Post Brenhinol yn ychwanegu eich cyfeiriad at eu Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (FfCCP) oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf hyn:

- Rhaid iddo fod yn gyfeiriad busnes dilys gydag arwyddion clir yn dangos enw'r busnes;
- Rhaid i’r adeilad gael ei feddiannu yn ystod oriau busnes;
- Rhaid i’r pwynt dosbarthu fod yn ddiogel ac yn hawdd ei gyrraedd ar gyfer derbyn post.

Felly, os yw'r eiddo'n fasnachol, efallai yr hoffech fodloni eich hun ei fod yn cwrdd, neu y bydd yn cwrdd, â'r meini prawf hyn. Os nad ydyw, bydd y Post Brenhinol yn tynnu'r cyfeiriad o’r FfCCP.

### *Ffeiliau Cyfeiriadau’r Post Brenhinol*

Bydd y Post Brenhinol yn ychwanegu’ch cyfeiriadau newydd at ei ffeil ***Heb Adeiladu Eto (HAE)***, defnyddir y ffeil hon i greu cyfeiriadau swyddogol ar gyfer eiddo sy'n cael eu hadeiladu. Mae hyn yn amddiffyn gweithwyr dosbarthu post y Post Brenhinol rhag y risg o anaf a achosir trwy fynd i mewn i safle adeiladu ac yn darparu amddiffyniad rhag twyll trwy sicrhau nad yw adeiladau nad oes ganddynt flwch post diogel eto yn derbyn unrhyw bost.

Os yw'r adeiladau / addasiadau newydd wedi'u cwblhau, bod ganddynt flwch post diogel a’u bod yn barod i symud i mewn iddyn nhw, gallwch ofyn am ychwanegu'r cyfeiriadau at ***y FfCCP (y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post)*** ar unwaith. Fodd bynnag, mae'r Post Brenhinol yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ar gyfer hyn. Fel arfer, bydd ffotograff o'r eiddo gorffenedig yn ddigon.

***A fyddech gystal â nodi’r canlynol:***

- Mae cyfeiriadau a gedwir ar y ffeil HAE yn swyddogol; byddwch yn dal i allu cael gwasanaethau fel dŵr, trydan a band eang wedi’u gosod.
- Os gofynnwch i'r cyfeiriadau gael eu hychwanegu at y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yn gynamserol, (h.y. cyn iddynt gael eu cwblhau) ac na all y gweithiwr dosbarthu post ddosbarthu’r post, bydd y Post Brenhinol yn eu symud a'u rhoi i mewn i’r rhestr HAE.

***Cyfrifoldeb y datblygwr yw sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Post Brenhinol i'w hysbysu pan fydd eiddo'n cael ei feddiannu, fel y gall y Post Brenhinol symud y manylion o’r ffeil HAE i’r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (FfCCP).***

*I actifadu eich cyfeiriad newydd unwaith y bydd yr adeilad wedi'i gwblhau (h.y. i symud y cyfeiriad o’r ffeil HAE i’r FfCCP), defnyddiwch [Ffurflen gyswllt ar-lein](#) newydd y Post Brenhinol. Mae'r ffurflen yn gofyn am yr holl wybodaeth berthnasol yn y fformat cywir i'w galluogi i ddelio â'ch cais yn gyflym ac yn effeithlon.*

## Enwau eiddo a/neu heolydd arfaethedig

### *Rhifau neu enwau?*

Bydd rhifau bob amser yn cael eu ffafrio dros enwau lle mae datblygiadau newydd yn y cwestiwn. Os yw stryd newydd yn cael ei hadeiladu, rhoddir rhifau i bob eiddo newydd ar y stryd.

Os yw'r adeiladau newydd ar stryd lle mae'r holl eiddo presennol wedi'u rhifo, neilltuir rhifau i'r adeilad / adeiladau newydd hefyd. Gallwch ddewis enw yn ychwanegol at y rhif os hoffech chi wneud hynny.

Gellir rhoi enwau i dai mewn lleoliadau gwledig lle nad oes cynllun rhifo ar waith. Fodd bynnag, os ydych am i'ch eiddo newydd gael enwau unigol, darllenwch y canllawiau canlynol yn ofalus gan y bydd gofyn i chi ddarparu ***o leiaf dri enw gwreiddiol*** ar gyfer pob un o'ch eiddo newydd.

Os hoffech drafod hyn cyn cyflwyno'ch cais, ffoniwch 01633 644644 a gofynnwch am ymholiadau Enwi a Rhifo Strydoedd neu e-bostiwch [developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk](mailto:developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk)

## Enwau eiddo

Mae'r rheolau sy'n llywodraethu enwi eiddo unigol yn llym; mae enw unigryw yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir lleoli eiddo yn gyflym ac yn hawdd.

Rydym yn derbyn nifer o gwynion gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig sy'n ymwneud â danfoniadau nwyddau'n mynd ar goll ac o bryd i'w gilydd, ambiwlansys yn cael eu gohirio. Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid i ni fod yn hynod ofalus wrth gymeradwyo enwau eiddo newydd.

Ymgynghorir â'r Post Brenhinol a'r Tîm Rhestr Tir ac Eiddo Lleol ar bob enw eiddo newydd; ***byddant yn gwrthod enwau nad ydynt yn bodloni'r rheolau canlynol:***

***Sicrhewch eich bod yn darllen y canllawiau canlynol ar enwi YN OFALUS, cyn i chi gwblhau'r adran hon.***

## Beth ddylech ac na ddylech wneud wrth ddewis enwau eiddo

### Yr hyn y dylech wneud:

- ✓ Dewiswch enw sydd mor wreiddiol â phosibl.
- ✓ Byddwch yn ymwybodol mai'r ***enw*** na ellir ei ddyblygu yn hytrach na disgrifiad yr eiddo; Er enghraifft, does dim ots os ydych yn dewis Bwthyn y Rhosod, Porthdy'r Rhosod, Tŷ'r Rhosod. Yr elfen *Rhosod* o'r enw sy'n berthnasol.
- ✓ Cofiwch fod enwau sy'n cynnwys coed, llwyni ac ati yn tueddu i fod yn hynod boblogaidd, e.e. Rhosod, Perllan, Derw, ac ati.
- ✓ Gwiriwch eich enw ar Ddarganfyddwr Cod Post y Post Brenhinol am wreiddioldeb (gweler isod am fanylion).
- ✓ Rhowch ***o leiaf dri*** awgrym ar gyfer enwi eich eiddo.

### Yr hyn na ddylech wneud:

- × Dewis enw sy'n cael ei ddefnyddio gan unrhyw eiddo arall **neu sy'n swnio'n rhy debyg** i eiddo arall yn ardal y cod post, e.e. NP7 5.., NP16 4.., NP26 3...
- × Dewis tri awgrym sydd ond yn amrywiadau ar thema, e.e. Bwthyn y Rhosod, Porthdy'r Rhosod a Chwrt Rhosod; pa bynnag ôl-ddodiad neu ragddodiad sy'n cael ei ddewis, ni fydd yr enw *Rhosod* yn unig yn cael ei gymeradwyo.
- × Dewis enw sy'n swnio'n hiliol, rhywiaethol, anweddus neu'n agored i gamddehongli.
- × Dewis enw sy'n rhy hir.
- × Dewis enw sy'n cynnwys "yn", e.e., *Y Porthdy **yn** Nhŷ Helyg*.
- × Dewis enw sy'n rhy gyffredinol, e.e. *Y Porthdy, Yr Ysgubor, Y Bwthyn* ac ati.

## Gwiriwch yr enw/enwau dewisol ar wasanaeth darganfyddwr cod post y Post Brenhinol:

Gallwch wirio eich enw/enwau dewisol ar gyfer gwreiddioldeb drwy fynd i: https://www.royalmail.com/cy/find-a-postcode

Os teipiwch yn eich enw dewisol (ond heb yr ôl-ddodiad fel *Bwthyn* ac ati) a rhan gyntaf y cod post, fe welwch os oes unrhyw eiddo arall gyda'r enw hwn yn eich ardal chi (gweler y darlun).

*Nodwch, er y bydd hyn yn rhoi syniad i chi a yw'r enw a ddewiswyd gennych eisoes yn cael ei ddefnyddio, nid yw'n ddi-feth; ni fydd enwau sy'n swnio'n debyg yn ymddangos yma ac ni fydd enwau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eiddo sy'n cael eu hadeiladu ychwaith.*



## *Enwau heolydd*

Mae'r broses o enwi heol newydd yn hir ac yn gymhleth. Felly, rydym wedi llunio canllawiau penodol y bydd angen i chi eu darllen os ydych yn dymuno dewis enwau heolydd newydd.

## *Datganiad yr ymgeisydd a manylion y taliad*

Cadarnhewch eich bod wedi talu'r ffi ac wedi darllen y nodiadau cyfarwyddyd.

***Gallwch dalu am eich cais enwi a rhifo strydoedd naill ai:***

- Gyda cherdyn trwy Swyddfa'r Ariannwr ar 01633 644355; rhowch wybod iddynt ei fod ar gyfer cais Enwi a Rhifo Strydoedd a dyfynnwch eich cyfenw a llinell gyntaf eich cyfeiriad fel cyfeirnod. Rhowch eich rhif derbynneb i'r gofod a ddarperir fel y gallwn glymu'ch taliad i'r cais cywir.
- BACS: Os hoffech dalu trwy BACS, e-bostiwch developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk a byddwn yn rhoi manylion y cyfrif banc a’r rhif cyfeirnod talu i chi.
- Gyda siec yn daladwy i “Cyngor Sir Fynwy” a'i bostio i'r cyfeiriad isod ynghyd â'ch ffurflen gais

***Ffi sy'n ddyledus:***

I weld y strwythur ffioedd, ewch i wefan Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Fynwy neu e-bostiwch developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk

Mae yna gyfrifiannell ar-lein hefyd i'ch helpu i gyfrifo'r swm sy'n ddyledus am fwy na dwy lain.

***Nodwch na fyddwn yn dechrau gweithio ar eich cais nes bod eich ffi wedi'i thalu'n llawn.***

Os ydych wedi cwblhau ffurflen gais copi caled, gallwch ei phostio i:

Enwi a Rhifo Strydoedd<br>
Cyngor Sir Fynwy<br>
Neuadd y Sir<br>
Y Rhadyr<br>
Brynbuga<br>
NP15 1GA

Neu anfonwch hi fel PDF mewn e-bost i developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk

**I drafod eich cais, ffoniwch 01633 644644 a gofynnwch am ymholiadau Enwi a Rhifo Stryd neu e-bostiwch developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk**